

GWEDDI'R WYTHNOS FAWR

Darllen Salm 61 a 62; Rhufeiniaid 5:1–11

Gweddi wedi ei seilio ar Ioan 12:32, 27

Gwahoddiad:

A minnau, os caf fy nyrchafu oddi ar y ddaear, fe dynnaf bawb ataf fy hun.

Ymateb:

A minnau, pan y'm dyrchefir oddi ar y ddaear, a dynnaf bawb ataf fy hun.

Gwahoddiad:

Am y rheswm hwn y deuthum i'r awr hon.

Ymateb:

Tynnaf bawb ataf fy hun.

Gwahoddiad:

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab ac i'r Ysbryd Glân.

Ymateb:

A minnau, os caf fy nyrchafu oddi ar y ddaear, a dynnaf bawb ataf fy hun. Amen.

EGLWYS MEWN TREF (DETHOLIAD O'R GERDD)

'Ha, ha', chwardd yr Arglwydd o sblander Ei lais,
'Er bod twllwch yn gytûn mae golau yn Groes'.

Gerbron yr allor fel pagan annynol
Yn chwilio am rin y goruwchnaturiol
Penliniaf heb neb ond fy rheswm yn gydymaith,
Fy rheswm llibin mewn corff o anwybodaeth.

A throsof hed haul o ffenestr yr allor,
Haul mwy euraid na'r gwychaf drysor...
Ond wele mae cysgod yn llusgo drosto,
Rhyw gysgod mor waedlyd â'r haul sydd yno.

Ar wely pren fy mhechod fe gwsg yr Iesu
Mewn angau-fywyd sy'n ffenestr i'w Eglwys Lân.
Ymestynna'i freichiau ar led yn ddiog
Ac egyr Ei geg yn waedlyd, ond ni ddaw cân.

Cwsg yr Iesu'n dawel yn llong Ei eglwys,
Eithr ar frig y storm fe ddeffry fel Arthur Gawr.
Cerdd ar ddyfroedd Satan a'm harwain drosodd
I ddodi 'nhraed yn ddiogel ar nef y llawr.